**Adroddiad i'r:** Penderfyniad Dirprwyedig Aelod Arweiniol

**Dyddiad yr Adroddiad** 1 Rhagfyr 2020

**Aelod Arweiniol / Swyddog** Y Cynghorydd Mark Young, Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel

**Awdur yr Adroddiad:** Karsten Bruβk, Swyddog Cynllunio

**Teitl:** Datganiad Technegol Rhanbarthol Agregau, Ail Adolygiad – Ardystio Dogfen

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae Gweithgorau Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru a De Cymru wedi cynnal yr ail adolygiad o'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh) ar gyfer Cymru. Mae dyfodol prosiect DTRh yn galw am agregau fel y gellir cynllunio datblygiad mwynau mewn ffordd gymesur a rheoledig gan Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLl).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae ail adolygiad o'r DTRh (gweler Atodiad 1) wedi'i gyhoeddi ond mae'n rhaid ei ardystio gan bob awdurdod cyn ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Cyngor yn ardystio'r Datganiad Technegol Rhanbarthol (2il Adolygiad).

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae Gweithgorau Agregau Gogledd Cymru a De Cymru wedi derbyn y dasg i ddarparu Datganiad Technegol Rhanbarthol (DTRh) 5 mlynedd wedi'i adolygu ar gyfer eu rhanbarth priodol. Mae hyn yn ofynnol gan Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) a Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (MTAN) 1: Agregau. Cafodd y DTRh gwreiddiol eu cyhoeddi yn 2008, ac yna adolygwyd yn 2014 (adolygiad cyntaf) ac yn 2019/20 (ail adolygiad). Eu diben yw nodi

dosraniadau o faint o agreg adeiladu sydd angen ei gynllunio ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl) unigol er mwyn sicrhau bod cyflenwad dibynadwy a chyson o agreg yn gallu cael ei gynnal i ddiwallu anghenion y sector adeiladu.

4.2 Mae'r DTRh (2il Adolygiad) yn darparu argymhellion strategol ar gyfer pob Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl), ynglŷn â'u dosraniadau ac unrhyw ddyraniadau sydd eu hangen yn y CDLl i ddiwallu'r galw rhagweledig yn y dyfodol drwy gyfnod y Cynllun perthnasol. Yn strategol o ran natur, nid yw'r DTRh yn rhagnodi polisi lleol na dyraniadau safle-benodol. Yr Awdurdod Cynllunio Lleol sy'n penderfynu sut i weithredu'r argymhellion yn ei gynllun defnydd tir.

4.3 Mae Cynllun Datblygu Lleol newydd Sir Ddinbych yn cynnwys y cyfnod o 2018 tan 2033 sy'n golygu ei fod yn cyd-fynd â'r ail adolygiad o'r DTRh ar ddechrau cyfnod y Cynllun ond bydd yn parhau ar waith pan fydd RAWPS yn cynnal pedwerydd adolygiad DTRh. Mae hynny'n golygu y bydd argymhellion strategol yr ail adolygiad yn cael eu hystyried yn ystod y broses paratoi cyn mabwysiadu'r CDLl ond bydd unrhyw newidiadau sy'n deillio o'r trydydd a'r pedwerydd adolygiad yn derbyn sylw drwy Adolygiadau CDLl yn y dyfodol.

4.4 Mae mwynau agregau adeiladu (craig wedi'i malu a thywod a graean) yn ddeunyddiau crai hanfodol ar gyfer y diwydiant adeiladu a phrosiectau seilwaith. Mae'n hanfodol gallu cynnal cyflenwad digonol a chyson o fwynau o'r fath i sicrhau bod y deunyddiau hyn yn cael eu ffynonellu mewn modd cynaliadwy.  Ble bo'r angen, mae'n rhaid i'r system cynllunio ddarparu ar gyfer sicrhau cyflenwad mewn ffurf dyraniadau, a all fod yn ddyraniadau penodol i safle, meysydd a ffefrir, neu feysydd chwiliad o fewn CDLlau i alluogi ceisiadau ar gyfer cyflenwad wrth gefn newydd a ganiateir o agregau i ddod ymlaen ble mae yna alw am hyn.

4.5 Mae'n ofynnol ble bo'n bosibl, i CDLlau ddarparu i sicrhau yn ystod cyfnod y cynllun bod yna leiafswm banc tir o saith mlynedd ar gyfer tywod a graean a deng mlynedd ar gyfer agregau craig wedi'i malu. Mae hyn yn golygu ar ddyddiad terfynol CDLl, mae'n rhaid cael y gofyniad lleiaf hwn a phan fydd hyn yn cael ei ychwanegu at gyfnod 15 mlynedd y CDLl. Felly, dylai'r CDLl ddarparu ar gyfer 22 mlynedd ar gyfer tywod a graean a 25 mlynedd mewn perthynas ag agred craig wedi'i malu.

4.6 O fewn Sir Ddinbych, mae'r DTRh (2il Adolygiad) yn argymell nad oes angen dyraniad penodol i safle yn y CDLl ar amod y lefel wrth gefn presennol a ganiateir a banc tir mawr o

graig wedi'i malu yn y Sir. Hefyd, o ran tywod a graean, nid yw'r DTRh (2il Adolygiad) angen i Sir Ddinbych wneud darpariaeth ar gyfer tir gyda thywod a graean yn y dyfodol.

4.6 Ni fu unrhyw gynnydd sylweddol mewn caniatâd cynllunio a ganiatawyd wrth gefn newydd ar draws Gogledd Cymru ers i'r adolygiad cyntaf o'r DTRh gael ei gyhoeddi ac mae lefel gyffredinol o agregau a ganiateir yng Ngogledd Cymru yn lleihau. Mae mwynau yn ased sy'n lleihau a gellir ond gweithio arnynt ble maent yn ymddangos, felly mewn rhai ardaloedd awdurdod lleol mae'n bosibl y bydd yna ddiffyg cyflenwad wrth gefn a ganiatawyd, a ble nad ydynt yn gallu gwneud darpariaeth ddigonol yn eu CDLl, mae hyn angen sylw yn rhanbarthol o fewn prosesau CDLl perthnasol drwy baratoi Datganiadau Cydweithio Is-Ranbarthol (DCIRh). DTRh (2il Adolygiad) wedi nodi is-ranbarthau yn seiliedig ar nodweddion eang ardal marchnad, dosbarthiad a mathau o fwynau ac mae Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam wedi eu grwpio fel is-ranbarth Gogledd Ddwyrain Cymru.

4.7 I grynhoi, mae'r ail adolygiad o'r DTRh yn gosod yr argymhellion canlynol i Gyngor Sir Ddinbych ystyried yn ei Gynllun Datblygu Lleol:

- Nid oes yna ofyniad ar gyfer dyraniadau safle yn y CDLl 2018 – 2033 ar gyfer craig wedi'i malu a thywod a graean.
- Mae'r dosraniad a argymhellir ar gyfer craig wedi'i malu wedi gostwng o 0.89 miliwn tunnell y flwyddyn i 0.86 miliwn tunnell y flwyddyn dros y 25 mlynedd nesaf (cyfnod CDLl ynghyd â 10 mlynedd).
- Mae yna ddigon o graig wedi'i malu wrth gefn a ganiateir e.e. 21.7 miliwn tunnell a 21.5 mlynedd o fanc tir i ddiwallu dosraniad ar gyfer cyfnod y Cynllun CDLl cyfan.
- Mae dosraniad y tywod a'r graean yn ddim sydd wedi gostwng o adolygiad cyntaf y DTRh oedd yn nodi'r angen i ddyrannu 2.2 miliwn tunnell o dywod a graean. Gan hynny, nid oes angen gwneud unrhyw ddyraniadau ar gyfer tywod a graean.
- Ble mae awdurdod lleol yn methu diwallu ei ddosraniad, dylai awdurdodau lleol o fewn yr isranbarth gydweithio i sicrhau bod cyflenwad cyson o agregau yn cael ei ddarparu ar gyfer y diwydiant adeiladu. Byddai hyn yn arwain at gynhyrchu 'Datganiad Cydweithio Is-Ranbarthol.'

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd y DTRh (2il Adolygiad) a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru yn dystiolaeth hanfodol ar gyfer cynhyrchu polisi lleol ar ddatblygu mwynau yn y Cynllun Datblygu Lleol

nesaf, sy’n Strategaeth Gorfforaethol ac yn cyfrannu at nifer o Flaenoriaethau Corfforaethol fel Tai a’r Amgylchedd.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw gostau drwy gymeradwyo’r Datganiad Technegol Rhanbarthol (2il Adolygiad).

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o’r Effaith ar Les?

Mae’r adroddiad hwn yn ymwneud â chymeradwyo datganiad technegol ar fwynau, oedd yn ddarostyngedig i ymgynghoriad cyhoeddus yn y Gaeaf 2019/20. Nid yw’n ceisio newidiadau i gynnwys y DTRh (2il Adolygiad) nac unrhyw bolisi na gweithdrefn y Cyngor. Penderfyniadau’r Cyngor a fyddai’n gallu deillio o’r DTRh, er enghraifft, ffurfio polisi lleol yn cael ei weithredu drwy’r Cynllun Datblygu Lleol a fydd yn ddarostyngedig i sawl Asesiad o’r Effaith ar Les cyn mabwysiadu. Gan hynny, nid yw Asesiad o’r Effaith ar Les wedi’i gynnal i gefnogi’r adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Cafodd ail adolygiad o’r DTRh, gan gynnwys argymhellion unigol ei drafod gydag Aelodau o’r Grŵp Cynllunio Strategol (GCS) ac Aelodau oedd yn arsylwi â diddordeb mewn dau gyfarfod ar 28 Hydref a 25 Tachwedd 2020. Roedd y ddwy drafodaeth yn canolbwyntio yn bennaf ar y dull isranbarthol ar gyfer cyflenwi mwynau a’r canlyniadau tebygol ar gyfer darpar gais cynllunio yn Chwarel Dinbych. Daethpwyd i’r casgliad bod Aelodau yn argymell cymeradwyo dogfen i’r Aelod Arweiniol mewn egwyddor ond mae’n rhaid adrodd yn ôl ar unrhyw fath o ‘gydweithio rhwng awdurdodau’ gydag awdurdod cyfagos yn ôl i’r Aelodau ac mae’n ddarostyngedig i benderfyniad ar wahân,

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol wedi’u cynnwys yn yr adroddiad.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Os nad yw’r Cyngor yn cymeradwyo’r ail adolygiad o’r DTRh, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bwerau diofyn i ymyrryd yn y broses cynllunio fel cam olaf. (Gweler Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1: Agregau, paragraff A3)

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Atodiad 2(b) i Adran 13 Cyfansoddiad y Cyngor